# SIARTER Y FRO SY'N DDA I BOBL HŶN

Mae'n bwysig bod gan bobl dros 50 oed ym Mro Morgannwg hawliau cyfartal, parch, cyfleoedd a'r un mynediad i wasanaethau â gweddill y boblogaeth. Er mwyn cyflawni hyn, **mae angen i ni gydweithio fel partneriaid, ochr yn ochr â'n cymuned i sicrhau bod pobl yn heneiddio'n dda yn y Fro.**



Mae'r gwaith hwn i wneud y Fro yn well i bobl hŷn yn seiliedig ar gysyniad Cymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) sydd wedi cael ei lywio gan farn a safbwyntiau pobl ledled y byd. Mae'r safbwyntiau hyn wedi llunio 8 maes ffocws allweddol WHO, a elwir yn 'feysydd'. Bydd cryfhau cymorth a chyfleoedd yn y meysydd hyn yn gwella ansawdd ein bywyd ac yn gwneud y Fro yn lle gwell i ni i gyd wrth i ni fynd yn hŷn.

### Yr 8 Maes Sy'n Dda i Bobl Hŷn




Ar draws Bro Morgannwg mae gwaith gwych eisoes yn cael ei wneud gan bartneriaid, grwpiau cymunedol ac unigolion i wella bywydau pobl 50 oed ac yn hŷn. Mae llawer o'r rhain wedi'u cynnwys yng Nghyfeirlyfr Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg. Ond mae angen gwneud mwy. Mae ymgysylltu diweddar â thrigolion, grwpiau cymunedol a phartneriaid wedi dylanwadu ar y cyfeiriad a'r ffocws ar gyfer cyfleoedd yn y Fro gan arwain at 8 ymrwymiad y gall pob un ohonom weithio tuag atynt.

## Ein Poblogaeth

**56,200**
Mae 56,200 o bobl 50+ oed yn byw yn y Fro. Mae hyn yn 46.2% o'r boblogaeth leol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021)

**280+**
o Aelodau Fforwm Strategaeth 50+ y Fro

**22%**
Cynnyd rhagamcanol o 22% yn y bobl 65+ oed yn y Fro rhwng 2019 a 2039, dyma'r cynnydd mwyaf mewn unrhyw ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru)



"Wrth i'n poblogaeth heneiddio, mae'n hanfodol rhoi llais i bobl hŷn fel bod ein gwasanaethau a'n strategaethau ar gyfer y dyfodol yn addas at y diben wrth i ni wneud popeth o fewn ein gallu i roi urddas i bobl wrth iddynt dyfu'n hen yn y Fro."

Eriolwr Dros Bobl Hŷn Cyngor Bro Morgannwg
**Cllr Loveluck-Edwards**



"Mae bod 'yn dda i bobl hŷn' yn golygu bod pobl o bob oed sy'n byw ac yn gweithio yn y Fro yn cael y cyfle i heneiddio'n dda a chymryd rhan weithredol yn eu cymuned. Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i wireddu'r uchelgeisiau hyn"

Cadeirydd BGC ac Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg
**Cllr Burnett**

# EIN HYMRWYMIAD

## Ym Mro Morgannwg sydd yn dda i bobl hŷn:



**Mae gan bobl gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywyd.**



**Mae gan bobl ymdeimlad o bwrpas, maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau.**




**Cefnogir pobl i gael gwaith a'i gadw a chael cyfleoedd i wirfoddoli.**



**Cefnogir pobl i gadw'n iach ac yn annibynnol trwy gael mynediad i wasanaethau priodol.**



**Mae pobl yn wybodus am y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt trwy fathau gwahanol o gyfathrebu.**



**Mae gan bobl fynediad i fathau addas o drafnidiaeth ar draws y Fro.**



**Mae gan bobl fynediad i fannau awyr agored ac adeiladau â chyfleusterau addas.**



**Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartrefi.**

valepsb@valeofglamorgan.gov.uk
www.valepsb.wales
@VOGPSB
01446 700111

# BRO OED-GYFEILLGAR

Nid oedd 43% o bobl 55+ oed yn cytuno â'r datganiad hwn: 'Rwy'n perthyn i fy nghymuned' (BGC, Arolwg Let's Talk 2022)

Roedd 86% o
fodlon ar y l
(BGC, Arolwg

Dywedodd aelodau o'r Fforwm Strategaeth 50+ wrthym eu bod yn mwynhau "rhannu nod cyffredin i wella bywyd pobl hŷn yn y Fro" (Gwryw 70+)

"Nid oedd y cyfnod clo yn wahanol i fi, rwyf wedi dod i'r casgliad fy mod i wedi bod yn byw mewn cyfnod clo ers blynyddoedd lawer" Benyw, 70-74 oed, (Age Cymru, Arolwg Profiadau'r Cyfnod Clo 2020)

Mae ein Siarter yn cydnabod pwysigrwydd gweithio'n uniongyrchol gyda phobl 50+ oed i sicrhau bod gan bob un ohonom lais yn dylanwadu ar y newidiadau sydd eu hangen ar draws y Fro. Gweithio gyda'n gilydd yw'r unig ffordd y byddwn yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau hyn mewn gwirionedd.

Os ydych chi neu sefydliad yr ydych yn gweithio neu'n gwirfoddoli iddo yn gwneud unrhyw beth i helpu i wneud Bro Morgannwg yn well i bobl hŷn, ac yn mynd i'n helpu ni i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Siarter hwn, byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthych.



## Y Camau Nesaf

Mae angen eich cymorth arnom i:

- Barhau i gysylltu a gwrando ar farn y rhai sy'n 50 oed neu'n hŷn sy'n byw ac yn gweithio yn y Fro i ddysgu mwy am yr heriau rydych chi'n eu hwynebu yn ogystal â'ch awgrymiadau am gyfleoedd i wella neu newid.

- Nodi gweithgareddau, gwybodaeth ddefnyddiol, data ac adborth i'n helpu ni i ddatblygu Cynllun Gweithredu'r Fro sy'n Dda i Bobl Hŷn, fydd yn dangos sut gallwn gefnogi ein gilydd i gyflawni pob ymrwymiad a sicrhau bod y Fro yn dda i bobl hŷn.

- Cymerwch ran yn Rhwydwaith y Fro sy'n Dda i Bobl Hŷn a gwnewch yn siŵr ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ymrwymiadau a gweithredoedd a rennir.

- Monitro ac adrodd ar ein cynnydd ar y cyd trwy Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddir bob haf.

valepsb@valeofglamorgan.gov.uk

@VOGPSB

www.valepsb.wales

01446 700111